# Uned 1
# Llafar
# Asesiad Diarholiad




## Tasg 1: Cyflwyno Gwybodaeth

## Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio

## Tasg 1
## Cyflwyno Gwybodaeth

Cyflwyniad Unigol ar sail ymchwil yn cynnwys ymateb i gwestiynau ac adborth wedi'u selio ar themâu gosod gan CBAC

**40 marc**

(20 marc Cynnwys a Threfn ac 20 marc am gywair, cywirdeb iaith a strwythur brawddegol)

**Cam 1**

### Dewis Testun

Cewch ddewis unrhyw destun o dan y themâu a ganlyn:

- Cymru
- Hamdden
- Byd Gwaith
- Byd Gwyddoniaeth/ Technoleg
- Dinasyddiaeth

**Cam 2**

### Ymchwilio

- Wythnos i baratoi dan oruchwyliaeth gyfyngedig
- Ymchwil ar y we, papurau newydd, cylchgronau, llyfrau cyfair, pamffeldi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl
- Gall eich athro roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i chi

**Cam 3**

### Llunio nodiadau

Cofiwch nad tasg ddarllen mo hon. Cewch lunio nodiadau:

- pwyntiau bwled byrion yn cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau
- gallwch ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth e.e. PowerPoint
- Dylech roi eich nodiadau/ copi o'r daflen PowerPoint

**Cam 4**

### Cyflwyno

- 5-7 munud yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa
- Cewch ddefnyddio gwrthrychau/ delweddau i'ch cynorthwyo
- Caiff y disgyblion eraill holi cwestiynau i chi ar derfyn y cyflwyniad

| **Sut mae llwyddo?** | ✓ | × |
|---|---|---|
| Dewis Testun | ✓ Un o'r 5 thema a osodir gan CBAC<br>✓ Dewis testun y mae gennych ddiddordeb gwirioneddol ynddo<br>✓ Testun y gellir ei gyflwyno mewn modd difyr er mwyn apelio at y gynulleidfa<br>✓ Testun gyda digon o agweddau gwahaonol iddo<br>✓ Testun sy'n cynnig her a chyfle i ddadansoddi<br>✓ | × Dewis testun rhy gymhleth nad ydych yn ei ddeall yn iawn<br>× Deiws testun â geirfa gymhleth ac anghyfarwydd<br>× Testun na ellir ei gyflwyno mewn modd difyr o flaen cynulleidfa<br>× Testun syml ac arwynebol heb wahanol agweddau |
| Ymchwilio | ✓ Ymchwil o wahanol ffynonellau'n cynnig golwg wahanol ar y pwnc<br>✓ Llunio cynllun yn nodi'n glir pa agweddau ar y pwnc rydych chi'n ymchwilio iddyn nhw<br>✓ Ymchwilio i dermau pwnc Cymraeg | × Gormod o wybodaeth fydd yn arwain at gyflwyniad sy'n rhestr o ffeithiau |
| Llunio nodiadau | ✓ Llunio nodiadau - nid brawddegau llawn a pharagraffau<br>✓ Nodiadau cryno fydd o gymorth i gadw strwythur eich cyflwyniad<br>✓ Trefnu nodiadau i wahanol agweddau'r pwnc | × Ysgrifennu nodiadau rhy fanwl heb chwynnu gwybodaeth- dim ond 5-7 munud fydd gennych chi i gyflwyno<br>× Llunio nodiadau ar un agwedd ar y pwnc yn unig<br>× Ysgrifennu brawddegau a pharagraffau- nid tasg ddarllen mo hon |
| Cyflwyno | ✓ Cyflwyno'n naturiol- dim darllen<br>✓ Cyflwyno'n eglur<br>✓ Edrych ar eich cynulleidfa<br>✓ Cyfleu eich diddordeb yn y pwnc<br>✓ Ystyried eich cynulleidfa a defnyddio arddull ddifyr<br>✓ Cyflwyno'n bwyllog ac yn drefnus<br>✓ Defnyddio PowerPoint neu wrthrychau a delweddau i gyfoethogi'r cyflwyniad lle bo hynny'n briodol<br>✓ Cadw o fewn y terfyn amser<br>✓ Delio â chwestiynau'n hyderus<br>✓ Cyflwyno gwahanol agweddau<br>✓ Dadansoddi'r pwnc yn ogystal â chyflwyno ffeithiau e.e. "Mae boddi Capel Celyn wedi cael effaith ar genedlaetholdeb yng Nghymru…"<br>✓ Defnyddio cywair iaith priodol- llafar a naturiol<br>✓ Defnyddio termau pwnc Cymraeg/ cystrawennau a gramadeg yn gywir | × Siarad yn aneglur/ undonog<br>× Rhuthro<br>× Ceisio cyfleu gormod o wybodaeth<br>× Darllen nodiadau<br>× Cyflwyniad byr/ llawer rhy hir<br>× Rhestru gwybodaeth/ ffeithiau heb ddadansoddi<br>× Geiriau a thermau pwnc Saesneg/ cystrawennau chwithig/ gwallau gramadegol<br>× Defnyddio cywair iaith rhy ffurfiol |

# Sgiliau

Er mwyn llwyddo gyda'r dasg hon bydd angen arddangos y sgiliau a ganlyn:

- Cyflwyno gwybodaeth a **dethol/trefnu gwybodaeth** a syniadau **yn effeithiol** ac yn ddarbwyllol
- Dangos **dealltwriaeth o gonfensiynau'r iaith lafar** mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- Siarad yn **gywir ac yn rhugl**, gan **addasu arddull ac iaith** fel eu bod yn **addas ar gyfer y gynulleidfa**
- Arbrofi gydag **iaith a thechnegau** i **greu effeithiau a denu diddordeb cynulleidfaoedd**
- Talu sylw priodol i **gywirdeb cystrawen a mynegiant**
- Cyfleu profiadau, **syniadau a gwybodaeth yn glir**, yn **gywir** ac yn **briodol**
- Defnyddio **sgiliau rhesymu geiriol** a **llunio barn annibynnol** wrth ddadansoddi'r testun
- Defnyddio dulliau creadigol o **ymchwilio i faterion, datrys problemau a datblygu syniadau**
- **Myfyrio ar eich defnydd o iaith** a chymryd rhan mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn, ac **addasu'r sgwrs yn briodol i'r sefyllfa a'r gynulleidfa**

## Holi cwestiynau

**Wrth holi:**

- gwrando yn ofalus ar y cyflwyniad er mwyn ystyried beth arall hoffech chi ei wybod
- holi cwestiynau yn seiliedig ar yr hyn a ddywedwyd
- gofyn cwestiynau teg y gellir eu hateb heb wneud gwaith ymchwill ychwanegol

**Wrth ateb:**

- ystyried y cwestiwn cyn ateb
- dweud yn onest os nad ydych yn deall y cwestiwn – fyddwch chi ddim yn colli marciau
- ceisio ateb y cwestiwn gydag ychydig o fanylder - mae hwn yn gyfle i brofi eich gallu i gyflwyno'n annibynnol
- defnyddio iaith lafar briodol ac arddull ddifyr wrth ymateb i gwestiynau
- cymerwch y cyfle hwn i wneud argraff dda – chewch chi ddim eich cosbi am fethu ag ateb ond mae'n gyfle i arddangos mwy o sgiliau llafar

**Cyfle yw hwn i arddangos mwy o sgiliau yn ogystal â'ch gallu i ymateb yn annibynnol i gwestiynau. Mae'n gyfle i brofi eich brwdfrydedd am y pwnc a ddewiswyd.**

## Tasg 2
## Ymateb a Rhyngweithio

Tasg grŵp yn seiliedig ar sbardunau ysgrifenedig neu weledol a ddarperir gan CBAC i symbylu trafodaeth

**40 marc**

(20 marc Cynnwys a Threfn ac 20 marc am gywair , cywirdeb iaith a strwythur brawddegol)

**Cam 1**

### Dewis Sbardun

Cewch ddewis unrhyw un o'r tri sbardun a osodir gan CBAC. Symbyliadau ar gyfer dechrau trafodaeth yn unig fydd y sbardunau hyn a gellir cyfeirio at bethau perthnasol eraill na sonnir amdanynt yn y deunydd a ddewisir.

**Cam 2**

### Ymchwilio

- Wythnos i baratoi dan oruchwyliaeth gyfyngedig
- Ymchwil ar y we, papurau newydd, cylchgronau, neu wrando ar y newyddion
- Gall eich athro roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i chi

**Cam 3**

### Llunio nodiadau

Cofiwch nad tasg ddarllen mo hon a bod rhyngweithio naturiol yn hanfodol.

- Llunio pwyntiau bwled byrion yn cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau i'ch athro ar ôl yr asesiad
- Cewch rannu/ grwpio eich nodiadau i sicrhau eich bod yn trafod gwahanol agweddau ar y pwnc
- NI DDYLECH LUNIO NODIADAU SY'N CYNNWYS BRAWDDEGAU LLAWN GAN FOD HYN YN ARWAIN AT DDARLLEN
- NI DYLECH AR UNRHYW GYFRIF SGRIPTIO RHANNAU O'R DRAFODAETH

**Cam 4**

### Trafod

- Tua 10 munud
- Defnyddio'r cwestiynau ar y sbardun i strwythuro'ch trafodaeth
- Trafod yn annibynnol heb ymyrraeth athro
- Ymateb i farn aelodau eraill y grŵp

| **Sut mae llwyddo?** | ✓ | × |
|---|---|---|
| Dewis Sbardun | ✓ Un o’r 3 sbardun a osodir gan CBAC<br>✓ Dewis testun y gall y grŵp cyfan ei drafod<br>✓ Dewis testun perthnasol fydd yn arwain at drafod naturiol a didwyll | × Dewis testun nad yw’r grŵp cyfan yn gallu uniaethu ag ef |
| Ymchwilio | ✓ Ymchwil o wahanol ffynonellau’n cynnig golwg wahanol ar y pwnc<br>✓ Ymchwil personol yn arwain at allu trafod gyda mwy o argyhoeddiad<br>✓ Rhannu/ grwpio nodiadau i arwain at drafod gwahanol agweddau ar y pwnc<br>✓ Ymchwilio i dermau pwnc Cymraeg<br>✓ | × Gormod o wybodaeth fydd yn arwain at aelodau’r grŵp yn ailadrodd ffeithiau/tystiolaeth heb fynegi barn |
| Llunio nodiadau | ✓ Llunio nodiadau - nid brawddegau llawn a pharagraffau<br>✓ Nodiadau cryno fydd o gymorth i gadw strwythur eich cyflwyniad<br>✓ Trefnu nodiadau i wahanol agweddau’r pwnc<br>✓ Rhestru tystiolaeth yn gryno fel y gellir cyfeirio ati’n hawdd | × Ysgrifennu nodiadau rhy fanwl fydd yn tarfu ar naturioldeb y drafodaeth<br>× Llunio nodiadau ar un agwedd ar y pwnc yn unig<br>× Ysgrifennu brawddegau a pharagraffau- nid tasg ddarllen mo hon<br>× Sgriptio’r drafodaeth |
| Trafod | ✓ Trafod yn naturiol<br>✓ Siarad yn eglur<br>✓ Ymateb i aelodau eraill y grŵp er mwyn datblygu pwyntiau<br>✓ Esbonio pwyntiau a godir ac ymhelaethu arnynt<br>✓ Cynnig tystiolaeth i gefnogi’ch safbwynt<br>✓ Defnyddio profiadau personol i gyfoethogi’r drafodaeth<br>✓ Trafod yn annibynnol ar yr athro<br>✓ Sicrhau tegwch i bawb yn y grŵp<br>✓ Holi aelodau eraill y grŵp<br>✓ Defnyddio geirfa mynegi barn yn naturiol<br>✓ Cadw o fewn y terfyn amser<br>✓ Delio â chwestiynau’n hyderus<br>✓ Trafod gwahanol agweddau ar y pwnc yn drefnus<br>✓ Defnyddio cywair iaith priodol- llafar a naturiol<br>✓ Defnyddio termau pwnc Cymraeg/ cystrawennau a gramadeg yn gywir | × Siarad yn aneglur<br>× Darllen nodiadau<br>× Trafodaeth fer/ llawer rhy hir<br>× Rhestru gwybodaeth/ ffeithiau heb fynegi barn<br>× Geiriau a thermau Saesneg/ cystrawennau chwithig/ gwallau gramadegol<br>× Defnyddio cywair iaith rhy ffurfiol<br>× Cyflwyno pwyntiau newydd heb orffen trafod agwedd arall ar y pwnc<br>× Cyflwyno pwynt hollol newydd heb ymateb i bwynt newydd a godwyd gan aelod arall o’r grŵp |

# Sgiliau

Er mwyn llwyddo gyda'r dasg hon bydd angen arddangos y sgiliau a ganlyn:

- **Dethol/trefnu gwybodaeth a syniadau yn effeithiol** ac yn **ddarbwyllol**
- Dangos **dealltwriaeth o gonfensiynau'r iaith lafar** mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- Siarad yn **gywir ac yn rhugl**, gan **addasu arddull ac iaith** fel eu bod yn **addas ar gyfer y gynulleidfa**
- **Arrbrofi gydag iaith a thechnegau i fynegi barn**
- Talu sylw priodol i **gywirdeb cystrawen a mynegiant**
- Cyfleu **profiadau, syniadau a gwybodaeth yn glir**, yn **gywir** ac yn **briodol**
- Defnyddio **sgiliau rhesymu geiriol** a **llunio barn annibynnol** ac arddangos **sgiliau gwrando** effeithiol drwy **grynhoi pwyntiau allweddol**, **herio'r hyn a glywir** ar **sail rheswm, tystiolaeth neu ddadl**
- Defnyddio dulliau creadigol o **ymchwilio i faterion, datrys problemau a datblygu syniadau**
- **Myfyrio ar eich defnydd o iaith** a chymryd rhan mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn, ac **addasu'r sgwrs yn briodol i'r sefyllfa a'r gynulleidfa**
- **Ymateb yn adeiladol ac yn feirniadol i amrywiaeth eang o destunau** ysgrifenedig a digidol/dynamig, gan ddefnyddio dulliau creadigol o **ymchwilio i faterion a datblygu syniadau**
- **Gwrando ac ymateb yn briodol i syniadau, cwestiynau a safbwyntiau pobl eraill**
- **Rhyngweithio ag eraill** gan lunio ystyr drwy awgrymiadau, sylwadau a chwestiynau a chasglu syniadau at ei gilydd